

Rambert: Draw from Within

Mae pob tocyn sy'n cael ei archebu drwy **Ganolfan Mileniwm Cymru** yn ddilys ar gyfer dangosiad **8pm Dydd Gwener 25 Medi**. Bydd y perfformiad yn cael ei ffrydio'n fyw ar-lein drwy wefan [Rambert Home Studio](https://www.rambert.org.uk/homestudio).

Nodwch nid yw'r perfformiad yn cael ei recordio ymlaen llaw; ond yn hytrach yn cael ei ffrydio'n fyw am 8pm. Oherwydd natur byw'r perfformiad yma, ni fydd yn cael ei ail ddangos ar ôl yr amser yma.


Bydd eich tocyn yn cael ei ddarparu ar ffurf cod unigryw - byddwn yn e-bostio hwn atoch chi, felly cadwch lygad ar eich e-byst (a'r ffolder sothach). Caiff yr ebyst cyntaf eu hanfon y diwrnod cyn y sioe. Gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein ar wmc.org.uk er mwyn gwirio pa gyfeiriad e-bost sydd gennym ar eich cyfer.

Os na fyddwch chi wedi derbyn e-bost gyda'ch cod erbyn 2pm ar ddiwrnod y perfformiad, cysylltwch â ni neu fîm Rambert. Cyn 4.30pm, gallwch gysylltu â ni yn uniongyrchol trwy ebostio tocynnau@wmc.org.uk. Bydd fîm Rambert ar gael i'ch helpu gydag unrhyw anawsterau technegol ar ôl i'n Swyddfa Docynnau gau. Cysylltwch â nhw drwy ffonio 020 8630 0600, neu e-bostio info@rambert.org.uk, neu cysylltwch â nhw ar gyfryngau cymdeithasol [@Rambertdance](https://www.rambert.org.uk/homestudio)

Gwybodaeth bwysig am sut i wylïo'r perfformiad - darllenwch ymlaen llaw a dilynwch y canllawiau isod cyn i'r perfformiad gychwyn am 8pm.

1. Cofrestrwch (am ddim) gyda [Rambert Home Studio](https://www.rambert.org.uk/homestudio).

Gallwch gofrestru unrhyw bryd, does dim angen eich cod unigryw arnoch. Gofynnwn i chi wneud hyn diwrnod cyn y perfformiad os gwelwch yn dda. Ewch i [Rambert.org.uk/homestudio](https://www.rambert.org.uk/homestudio) a chliciwch y botwm **JOIN**:




2. Gallwch gofrestru gan ddefnyddio eich cyfrif Facebook, Google neu Twitter neu, os oes well gennych chi, gallwch greu enw defnyddiwr a chyfrinair newydd.

A registration form on a dark background. It includes fields for "Username", "E-mail address", "Password", and "Confirm password". There are instructions for each field, such as "Spaces are allowed; punctuation is not allowed except for periods, hyphens, apostrophes, and underscores." for the username. A "CAPTCHA" section with a checkbox "I'm not a robot" and a "RECAPTCHA" logo is present. At the bottom is a "CREATE NEW ACCOUNT" button.

2. Unwaith byddwch wedi cofrestru, fe gyrhaeddwch dudalen gartref gwefan **Rambert Home Studio**. Unwaith dderbyniwch eich e-bost gyda'ch cod unigryw, gallwch ychwanegu'ch tocyn i'ch cyfrif fan hyn.
3. I hawlio'ch tocyn, cliciwch ar yr eicon yma ar ochr dde brig y dudalen:



4. Cliciwch **REDEEM TICKET**



5. Mewnbynnwch cod eich tocyn a chliciwch **REDEEM**

A black rectangular form with a white header area. The header contains the text "Redeem ticket" in red. Below the header is a long white input field. Underneath the input field, in small grey text, it says "Please enter 16 digital code here". At the bottom of the form is a long white button with the word "REDEEM" in black capital letters.


6. Ewch yn ôl i'r dudalen gartref:



7. Er mwyn gwneud pethau'n haws y tro nesaf, cadwch ddolen i fwrdd gwaith eich cyfrifiadur drwy glicio ar yr eicon isod ar ochr dde brig y sgrin.




Yna clicwch 'Add to Home Screen'



Bydd eicon Rambert bellach yn ymddangos ar fwrdd gwaith eich cyfrifiadur, eich ffôn neu'ch tabled. Unwaith byddwch chi wedi mewngofnodi gallwch wylio'r perfformiad ar unrhyw ddyfais.

Sut i wyllo

Ewch i Rambert.org.uk/homestudio. Os ydych chi wedi mewngofnodi'n barod, byddwch yn mynd yn syth i'r dudalen gartref. Os fyddwch yn glanio ar y dudalen isod, cliciwch [JOIN](#):




Mewngofnodwch yma:

A screenshot of the Rambert Home Studio user account login page. The header is identical to the previous image. The main content area has a dark background with the heading 'User account' in white. Below the heading are three buttons: 'Join', 'Log in', and 'Forgotten your password?'. The 'Log in' button is highlighted. Below these buttons are two input fields: 'Username' and 'Password', each with a red asterisk indicating a required field. Below the 'Username' field is a small text prompt: 'Enter your Rambert username.' Below the 'Password' field is a small text prompt: 'Enter the password that accompanies your username.' Below the input fields is a large white button with the text 'LOG IN' in black. At the bottom, there is a section titled 'Login with:' followed by three buttons: 'Login with Facebook' (blue), 'Login with Google' (red), and 'Login with Twitter' (blue).


Pan fyddwch chi wedi mewngofnodi, cliciwch ar yr eicon tudalen gartref sydd i'w gweld yng nghornel dde brig y dudalen:




Bydd y dudalen gartref yn edrych fel yma:



Os sgroliwch i lawr y dudalen, fe welwch hyn:



Cliciwch ar y pennawd [watch livestreams](#). Aiff hynny â chi i'r dudalen yma:



Mae tri opsiwn ar gyfer **Draw From Within**: 26 Medi, 25 Medi a 24 Medi. Mae pob tocyn sydd wedi'i archebu drwy Ganolfan Mileniwm Cymru yn ddilys ar gyfer **25 Medi** yn unig, gan mai dyma amser y darllediad yn y DU, felly gwnewch yn siwr eich bod yn clicio'r un cywir.

Bydd y perfformiad yn ymddangos ar y dudalen yma, unwaith eith yn fyw: <https://www.rambert.org.uk/homestudio/content/draw-within-25-september-2020>



Cofiwch os gwelwch yn dda y bydd rhaid i chi fod wedi mewngofnodi l **Rambert Home Studio** ac wedi gwaredu eich tocyn er mwyn gwyllo'r perfformiad, fydd yn dechrau am 8pm. Wedyn, eisteddwch yn ôl a mwynhewch y sioe!